**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun dydd Mercher 15 Rhagfyr 2010 am 09:30am.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr I W Armstrong, J R Bartley, J B Bellis, J Chamberlain Jones, W L Cowie, J M Davies, P A Dobb, M J Eckersley, G C Evans, R L Feeley, D Hannam, C Hughes, T R Hughes, E R Jones, H Ll Jones, M M Jones, P W Owen, D Owens, A G Pennington, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson Hill, C H Williams, E W Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, Prif Gyfreithiwr (Susan Cordiner), Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Prif Geisiadau), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Sandra Williams (Cyfieithydd).

Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (J Kennedy) a'r Pensaer Cadwraeth (P Ebbrell) yn mynychu yn ystod eitem ar Ysbyty Gogledd Cymru.

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Cynghorwyr J A Davies, P Duffy, I Gunning, N J Hughes, G Kensler, L Morris a B Smith.

**562 MATERION BRYS**

Atgoffwyd yr Aelodau i arwyddo'r gofrestr bresenoldeb. Roedd yr ymarfer tân yn ystod y Pwyllgor ym mis Tachwedd yn datgelu nad oedd pob Aelod wedi arwyddo a bod hyn yn fater Iechyd a Diogelwch pwysig.

**563 CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd (dosbarthwyd ynghynt) gan rifo'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd yn gofyn am benderfyniad gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) Cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel y'u gwelwyd o fewn yr adroddiad ac a oedd wedi'i gyflwyno erbyn hyn. Hefyd, bod caniatâd cynllunio neu wrthodiadau, yn ôl fel oedd yn digwydd, yn cael eu hanfon fel oedd yn briodol o fewn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Iawndal Cynllunio 1991, Rheoliadau Hysbysu Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/ neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig a Mannau Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a gynigiwyd gan y cynlluniau canlynol yn ddibynnol ar yr amodau a nodwyd yn y drefnlen oedd wedi'i chyflwyno erbyn hyn:-*

(i) Caniatâu

| Rhif y Cais. | Disgrifiad a'r Sefyllfa |
|---|---|
| 02/2010/1152/A | **SIARADWR YN ERBYN - GRAHAM WILLIAMS**<br>Manylion mannau parcio, storfa biniau a man sychu dillad a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 3 o god caniatâd cynllunio rhif 02/2005/0069/PF<br>**Gwesty'r Park Place 2 Stryd Mwrog Rhuthun**<br>**CANIATÁU**<br>Yn ddibynnol ar Amod Diwygiedig 3<br>Dylai Paragraff 1.1.2, tudalen 2 fod wedi dyfynnu'r testun o Amod 3:<br>"3. Dylai'r mannau a nodwyd ar y cynllun bloc a gyflwynwyd i'w defnyddio fel mannau parcio ceir, storfa biniau a man sychu dillad gael eu gosod gyda chytundeb yr awdurdod cynllunio lleol a'u cadw i'r |

pwrpas hwn yn unig, cyn i unrhyw un fyw yn un o’r anheddau hyn a gymeradwywyd.
1.O fewn mis i ddyddiad y gymeradwyaeth hon, bydd manylion yr israniad a sgrinio’r storfa biniau’n cael eu cyflwyno i’w hystyried a’u cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a bydd cynllun o’r fath, ar ôl ei gymeradwyo’n ffurfiol yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod, yn cael ei weithredu cyn 31 Mawrth 2011 fan bellaf a bydd yn cael ei gadw felly bob amser ar ôl hynny. Y rheswm dros yr amod yw: oherwydd amwynder gweledol.
NODYN NEWYDD I’R YMGEISYDD
1.Cynghorir chi i gysylltu â Swyddog yr Achos I drafod manylion sgriniau/ israniad y storfa biniau cyn cyflwyno’r cynlluniau’n ffurfiol, fel y disgwylir yn amod 1.

14/2010/0959/PFDT

**SIARADWR O BLAID – PETER FOWLER**
Ar ôl ystyried cynllun ychwanegol yn dangos y safle mewn perthynas □’r SSA ac un llythyr ychwanegol o sylwadau oddi wrth Asiant yr Ymgeisydd
Codi tyrbin gwynt 55 kW ar dŵr 25 m gyda diamedr rotor o 19.2 m (brasamcan o uchder o’r ddaear i flaen y llafn 35m)
**Cae Gwyn Cyffylliog Rhuthun**
**CANIATÁU**
Penderfynwyd CANIATÁU yn erbyn argymhelliad y swyddog. Dylid cyflwyno adroddiad pellach i Bwyllgor Cynllunio Ionawr 2011 gydag awgrymiadau o amodau ar y caniatâd.
Gwnaed y penderfyniad, YN ERBYN Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol;
Gwnaed y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn erbyn argymhelliad y swyddog oherwydd bod y safle o fewn ffin Ardal Chwilio Strategol yn TAN 8 ac roedd y cynnig yn cynrychioli cynllun derbyniol o arallgyfeirio ffarm yn unol â TAN 6.

14/2010/0960/PFDT

**SIARADWR O BLAID – HUW JONES**
Ar ôl ystyried y cynllun ychwanegol yn dangos y safle mewn perthynas â’r SSA a’r llythyr ychwanegol o sylwadau oddi wrth Asiant yr Ymgeisydd.
Codi tyrbin gwynt 55 kW ar dŵr 25 m gyda diamedr rotor o 19.2 m (brasamcan o uchder o’r ddaear i flaen y llafn 35m)

**Cae’r Weirglodd Cyffylliog Rhuthun**
**CANIATÁU**
Penderfynwyd CANIATÁU yn erbyn argymhelliad swyddogion o gael adroddiad pellach i Bwyllgor Cynllunio Ionawr 2011 gydag awgrymiadau o amodau ar y caniatâd.
Gwnaed y penderfyniad, YN ERBYN argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol;

Gwnaed y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn erbyn argymhelliad y swyddog oherwydd bod y safle o fewn ffin Ardal Chwilio Strategol yn TAN 8 ac roedd y cynnig yn cynrychioli cynllun derbyniol o arallgyfeirio ffarm yn unol â TAN 6.

46/2010/1221/PS

Mynegodd y Cynghorydd Selwyn Thomas fudd yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra’r oedd yn cael ei ystyried. Cymerodd Ray Bartley at y Gadeiryddiaeth yn ei absenoldeb.
Amrywiad o Amod Rhif 5 caniatad cynllunio Rhif Cod 46/2004/0445/PF i ganiatáu rhywun i fyw am 12 mis yn barhaus ar y safle garafannau sefydlog yn

**Spring Gardens Y Roe Llanelwy**
**CANIATÁU**
Yn ddibynnol ar Amod Newydd 3
I sicrhau cysondeb yn yr ymagwedd a gymerir gan yr Arolygydd Cynllunio mewn apêl, mae swyddogion yn gofyn am i'r amod canlynol gael ei gynnwys i helpu'r dasg o fonitro'r defnydd o'r carafannau:
3. Mewn perthynas â'r defnydd o'r carafannau, dylai perchnogion pob uned a gofalwr y safle gynnal cofrestr gyfredol o enwau perchnogion/preswylwyr bob carafán ar y safle, i gynnwys prif gyfeiriad cartref gyda thystiolaeth copi diweddar o orchymyn treth gyngor ar gyfer yr eiddo y maen nhw'n ei ystyried fel eu prif annedd, log o'r union ddyddiadau y mae rhywun wedi bod yn byw ym mhob carafan phwy oedd yn byw yno. Dylai'r cofrestri/ logiau fod ar gael ar bob amser rhesymol i'w harchwilio gan swyddogion yr awdurdod cynllunio lleol. Cyfrifoldeb deilydd trwydded y safle garafannau neu ei berson/ pherson(au) enwebedig fydd casglu a chynnal y cofrestri/logiau.
Y rheswm dros yr amod yw sicrhau bod yr awdurdod cynllunio lleol yn gallu monitro'r defnydd o'r carafannau'n effeithlon i sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio fel anheddau.

(ii) Gohiriwyd
09/2010/1356/PF — Adeiladu storfa slyri crwn math tŷ ar blotiau 24 a 25 (cymeradwywyd ynghynt gyda'r rhif cod. 17/2008/0989)
**Efail Y Waen Bodfari Dinbych**
**GOHIRIO**

**564 <u>MATERION GORFODI</u>**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn gofyn am awdurdod i gymryd camau gorfodi ar y safleoedd canlynol:

(i) ENF/2010/00098 – Gwasanaethau Cludo Ledden 59 Ffordd Las y Rhyl
Newid defnydd o Ganolfan MOT i Ganolfan MOT a Gwerthu Ceir

***PENDERFYNWYD:*** *Rhoi awdurdod i anfon Rhybudd Gorfodi i sicrhau atal y newid defnydd heb awdurdod ar y safle.*

*Dechrau achos, neu unrhyw gam priodol arall yn ôl y Deddfau Cynllunio ar y person, neu'r personau, yr anfonir unrhyw Rybudd Gorfodi neu Rybudd tebyg arall ato, os na fydd yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol.*

<u>CYFNOD CYDYMFFURFIO</u>: 1 mis.

(ii) ENF/184/99/S – Y cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych
Esgeuluso Adeilad Rhestredig

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (dosbarthwyd ynghynt) gan ofyn am benderfyniad gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi'r awdurdod i anfon Rhybudd Gwaith Brys ar Adeilad Rhestredig i sicrhau bod yr adeilad rhestredig yn ddiogel ac na fyddai'r tywydd gwael yn gallu effeithio arno, gyda'r nod o sicrhau arbed yr adeilad rhestredig rhag dirywiad pellach, ar unwaith.*

Os na fydd y perchennog yn gwneud y gwaith brys angenrheidiol, dylid gwneud y gwaith ac yna ceisio adennill yr holl gostau rhesymol a ddigwyddodd wrth wneud y gwaith, oddi wrth y perchennog.

**RHAN II**

***PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol yn unol â Pharagraff 16 Rhan 4 Trefnlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

ENF/184/99/S – Y cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych
Esgeuluso Adeilad Rhestredig

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (dosbarthwyd ynghynt) gan ofyn am benderfyniad gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD** rhoi awdurdod ar gyfer yr argymhellion yn yr Adroddiad gan gynnwys gwneud y gwaith brys ar yr adeilad rhestredig os na fyddai'r perchennog wedi cydymffurfio gyda'r Rhybudd Gwaith Brys.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11:30am.

********